Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Busnes**

# Amserlen ar gyfer ystyried:
# Y Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol)

Mawrth 2024

Ar 11 Mawrth 2024, cyflwynwyd y Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) yn y Senedd.

Ar 27 Chwefror, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 26.9, i gyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Biliau Diwygio i ystyried yr egwyddorion cyffredinol a chyflwyno adroddiad arnynt.

Ar 12 Mawrth, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 26.7, ar amserlen ar gyfer gwaith y Pwyllgor o ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil, gan gytuno y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Senedd erbyn 7 Mehefin.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylid cwblhau trafodion Cyfnod 2 erbyn 19 Gorffennaf, ar yr amod bod y Senedd yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil.